*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 3138

## Gorchymyn Cefnffordd Llundain I Abergwaun (YR A40) (Gwelliant Penblewin I Barc Slebets) 2008

**1.** Daw'r briffordd newydd y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadau ei hadeiladu ar hyd y llwybr a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn yn gefnffordd o'r dyddiad pan ddaw'r Gorchymyn hwn i rym.

**2.** Dangosir llinell ganol y gefnffordd newydd â llinell ddu drom ar y plan a adneuwyd.

**3.** Bydd y darnau o'r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau rhesog llydan ar y plan a adneuwyd yn peidio â bod yn gefnffordd ac yn dod yn ffordd ddosbarthiadol neu'n ffordd ddiddosbarth fel y dangosir yn yr Atodlen honno o'r dyddiad y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hysbysu Cyngor Sir Benfro mai ef fydd yr awdurdod priffyrdd cyfrifol am y darnau hynny o ffordd.

**4.** Mae Gweinidogion Cymru wedi'u hawdurdodi i adeiladu'r bont newydd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn fel rhan o'r gwelliannau i'r gefnffordd.

**5.** Yn y Gorchymyn hwn:

mesurir pob mesuriad o bellter ar hyd llwybr y briffordd berthnasol;

ystyr "ffordd ddosbarthiadol" ("*classified road*"), fel dosbarthiad i briffordd yw nad yw'r briffordd yn brif ffordd at ddibenion deddfiadau neu offerynnau, sy'n cyfeirio at briffyrdd a ddosbarthwyd gan Weinidogion Cymru ac nad yw'n cyfeirio'n benodol at eu dosbarthiad fel prif ffyrdd.

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40);

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan sy'n dwyn y Rhif HA10/2 NAFW 20 ac sydd wedi'i farcio "Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Penblewin i Barc Slebets) 2008", ac a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru ac sydd wedi'i adneuo gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Uned Storio ac Adfer Cofnodion (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd; ac

ystyr "plan y bont" ("*the bridge plan*") yw'r plan sy'n dwyn y Rhif HA10/2 NAFW 20 ac sydd wedi'i farcio "Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Penblewin i Barc Slebets) 2008 Atodlen 3 -Manylebion pont dros gwrs dwr mordwyol", ac a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru ac sydd wedi'i adneuo gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Uned Storio ac Adfer Cofnodion (RSRU), Neptune Point, Ocean Way, Caerdydd;

**6.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Rhagfyr 2008. Enw'r Gorchymyn hwn yw "Gorchymyn Cefnffordd Llundain i Abergwaun (yr A40) (Gwelliant Penblewin i Barc Slebets) 2008".

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru

*S. C. SHOULER*
Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweinyddu
Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru

8 Rhagfyr 2008